Gair bach Bethlehem 2021

RHIFYN 30

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 30 Medi 2021

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Rhwng dau rifyn a dau gymun

CLOSIO FESUL SEDD!

Mae bwlch o dros ddeufis ers i ni gyhoeddi, yn ein rhifyn diwethaf o'r Gair Bach, ein bod yn ail agor y Tŷ Cwrdd ac y byddai'r cymun ym Methlehem ar y Sul cyntaf o Orffennaf. Y cyfarwyddyd yr adeg honno oedd i bawb ddod â'u bara a'u gwin eu hunain, pawb i wisgo mwgwd ac y byddem o leiaf ddwy fetr neu ddwy sedd ar wahân. Fe barhaodd y drefn honno o "ymbellhau" drwy holl oedfaon Gorffennaf a'r rhai fu am yn ail ag oedfaon rhithiol Efail Isaf yn ystod Awst.

Erbyn yr wythnos ddiwethaf, fodd bynnag, ar Sul cyntaf Medi, pan gafwyd cafwyd cymun unwaith eto, roedd yna newidiadau bach a chalonogol. Roedd yr elfennau wedi eu paratoi yn y cyntedd, a'r aelodau'n cael bod o fewn un sedd wag i'w cyd-gymunwyr. Mae hyn i gyd i digwydd, diolch i'r rhai yn ein plith sy'n gofalu ein bod yn dilyn pob diweddariad i'r canllawiau COVID ac yn cynnal asesiadau risg ar ein rhan. Hyderwn y bydd yr amodau hyn yn parhau ac y cawn ni gyfnod gweddol o'r 'normal newydd' o hyn i'r gaeaf.

Trowch i'r dudalen nesaf am ragor o luniau'r ail agor a chofnod byr o'r newid erbyn i fis Medi gyrraedd.

Dyma sut roedd pethau ar ddechau Gorffennaf – ein Sul cyntaf wedi'r paentio!



Ac isod, erbyn Medi – roedd yr elfennau wrth y drws... a Delwyn yn ein harwain unwaith eto

9/11

Sdim dwywaith, y rhifau 9 ac 11 sy' wedi dwyn y sylw mwya' yn ystod y mis yma, a hynny gan ei fod yn 20 mlynedd ers y weithred derfysgol a chwalodd y tyrrau'n Efrog Newydd gan ladd 2,977 o bobl. Gweithred arweiniodd at ddial a mwy o ladd, arweiniodd at ddial pellach a mwy eto o ladd, ac ymlaen ac ymlaen. Do, bu cysgod y tyrrau'n drwm iawn dros hanes y byd ers Medi'r 11eg, 2001. "September the eleventh" yn Saesneg. September - o'r Ffrangeg "sept", o'r Lladin "septem", ie, saith, September - y seithfed mis. Ond "howld on" Defi John, y nawfed mis yw e'! Ie, y nawfed mis bellach, ond adeg y Rhufeiniaid pan enwyd y rhan fwya' o'r misoedd, y seithfed mis mâs o ddeg o'dd e'. Fe ddisodlodd yr enw newydd Rhufeinig yr hen enw Saesneg ar y mis, sef "Haerfestmõnad" oedd yn golygu Mis "Lleuad y Cynhaeaf", neu fel ry'n ni'n ei alw yn y Gymraeg mis "Lleuad Fedi".

Ydyn, ry'n ni'r Cymry wedi dal at yr hen ystyr a'i gysylltiad â'r cynhaeaf. Ers talwm roedd rhai yn ei alw'n fis Menni - sef mis y Wagenni. (Y wagenni o'dd yn cario'r gwair? Atebion ar garden post os gwelwch yn dda.) "Gwynngala" yw'r enw'n y Gernyweg, a "Gwengolo" yn y Llydaweg, sef mis y gwenith gwyn, a dyna gysylltiad eto â'r cynhaeaf.

Mae 'na enwau difyr ar rai o'r misoedd eraill 'fyd, Ionawr - mis marw, Chwefror - mis bach wrth gwrs. Ro'dd 'na Fis Mawr i ga'l i lowyr Morgannwg, sef mis o'dd yn cynnwys 5 dydd Gwener, felly mwy o gyflog. Mis da!!! Yna, Ebrill/Mai - mis y Gog (y gwcw), neu yn yr Hen Saesneg, mis y Tri Godro!

Ond i ddychwelyd at fis Medi, mis y cynaeafu, lle ma'r amaethwyr yn medi'r hyn ma' nhw wedi hau. Ac ma'r cysyniad o hau a medi yn un sy'n cael ei ddefnyddio'n aml yn y Beibl, yn llyfr y Diarhebion "y mae'r un sy'n hau anghyfiawnder yn medi gofid" ac yn llythyr Paul at y Galatiaid mae'n cyhoeddi "beth bynnag y mae rywun yn ei hau, hynny hefyd y bydd yn ei fedi".

O ystyried y gofid a'r gwae a'r colledion a achoswyd gan 9/11, onid dyma'r cyfle i'r ddynoliaeth oedi am eiliad, ystyried, braenaru'r tir, ac yna hau hadau maddeuant a thrugaredd er mwyn gweld cynhaeaf o gymod a chariad.

Gaiff y Salmydd y Gair ola' - "Bydded i'r rhai sy'n hau mewn dagrau fedi mewn gorfoledd."

Delwyn.

Llongyfarchiadau i'r canlynol:

- **Martin Huws,** Ffynnon Taf ar ennill ar y soned yng Ngŵyl Fawr Aberteifi. Yn yr Eisteddfod Amgen, fe gafodd ei waith ei enwi fel dewis cyntaf un beirniad am Y Goron. Tregaron amdani Martin! (*Gweler hefyd Tud 8*)
- **Menna Jones ac Iwan** ar ddod yn Nain a Thaid unwaith eto. Ganwyd Greta fach i Mair eu merch a Will yn Rhiwbeina. Gor nith fach arall i Gwenno Huws.
- **Rhiannon ac Alun Evans** ar ddathlu eu priodas ddiemwnt!

Anfonwn ein cofion at:

- Ann Passmore, sydd newydd gael clun newydd
- a phawb o deulu Bethlehem sydd wedi bod yn wael neu'n anhwylus yn ddiweddar.

Heb anghofio...

- Diolch i bob un sydd wedi cynnal gwasanaethau yn y capel neu ar-lein dros fisoedd Gorffennaf ac Awst ac i Wyn Jones am ofalu bod yr oedfaon ar gael ar-lein i bawb na allai fynychu.
- Braf oedd clywed llais cyfarwydd o UDA ar Dros Frecwast, wrth i Lowri Sion drafod sefyllfa ddiweddaraf yr Arlywydd Biden gyda Gwenllian Grigg.

ZOOM-MERCHED

Cofiwch ymuno â'r **Cwrdd Merched** fydd yn cyfarfod am sgwrs anffurfiol ar Zoom am **1.30 pm, Dydd Mawrth Medi 14eg.**

Mae'r manylion fel o'r blaen sef:

https://us02web.zoom.us/j/83055407104?pwd=WmlkMmJ2NlY1U21wZFdqc0g1bm9UUT09

Rhif adnabod: 830 5540 7104; Cyfrinair: 518677

Colli Emyr Edwards

Bu farw'r dramodydd, cynhyrchydd, ac arbenigwr ym maes y theatr, Emyr Edwards, ar Orffennaf 5ed, 2021 yn 90 mlwydd oed. I ni ym Methlehem, roedd wedi bod yn ŵr parod iawn i'w waith fod ar gael i Waelod-y-Garth, ac wrth gwrs yn benteulu'r Edwardsiaid fu'n gymaint o gefn i ni yma yn ein tŷ cwrdd, ynghyd â'i briod Cath, y mab Seth a'i briod Bridie, a'r disgynyddion gweithgar, Aine ac Aran.

Yn ei wasanaeth coffa yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen, bu ei deulu a chyfeillion yn talu eu teyrngedau iddo. Dyfynnodd Aine o deyrnged gan gyd-fyfyriwr i Emyr, Evan John Jones, yn nyddiau ei gyfnod yn y Brifysgol ym Mangor – gan nodi ei fod yn flaengar yn holl waith creadigol y coleg ar y pryd. Roedd yn fardd medrus, yn gerddor dawnus ac yn actor tan gamp. Dyfynnodd Aine hefyd deyrnged gan Gareth Thomas, un o'i gyn-fyfyrwyr yng Ngholeg Y Barri, oedd yn tystio i Emyr fod yn gymaint o gymorth iddo tra'n dysgu Cymraeg ac yn ddiweddarach yn cyhoeddi cyfrolau yn Gymraeg a Saesneg.

Bu ei fab, Seth, a'i ferch yng nghyfraith, Bridie, yn datgan eu hatgofion teuluol a'u diolchiadau i'r rhai fu mor gefnogol iddyn nhw dros gyfnodau gwaeledd y teulu. Cawsom gip ar y carafaniwr deithiodd hyd a lled y cyfandir, yn gogydd medrus ac yn deall beth oedd bwyd blasus a gwinoedd da. Trist meddwl i Emyr ein gadael union bedwar mis ar ôl ei briod, Cath, ac fe glywyd y tro hwn eto gerddoriaeth Delwyn Sion ar eiriau yr oedd Emyr wedi eu hysgrifennu iddi hi, gan gychwyn gyda'r pennill hwn:

"Hen, hen yw llwybr hiraeth,
Mae'n cychwyn yn y cof,
Mae'n dilyn fel y fordaith
Hir, hir yw dilyn y daith."

Wrth gwrs, roedd y cysylltiad rhwng Delwyn, fel cyfansoddwr, ac Emyr, y dramodydd, yn ymestyn yn ôl i ddiwedd saith-degau'r ganrif ddiwethaf. Roedd Emyr wedi sefydlu Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd – cymwynas gafodd ei chydnabod gan y mudiad drwy anrhydeddu Emyr yn y Brifwyl yng Nghaerdydd ddwy flynedd yn ôl. Yn naturiol adroddodd Delwyn ei atgofion o ddyddiau cyd-greu'r sioe gerdd "Jiwdas Iscariot" gydag Emyr. Yna cyflwynodd un o gast y sioe arbennig honno, Stifyn Parri. Ganddo ef cafwyd portread lliwgar o'r antur fawr o ymarfer a theithio sioe gerdd o gwmpas Cymru ar ôl dim ond bythefnos o'i dysgu dan gyfarwyddyd Emyr yng ngwersyll Llangrannog.

Ond er i Emyr gyfrannu o'i brofiad yn genedlaethol, roedd yn weithgar yn lleol hefyd, fel y tystiodd un o gyd-drigolion Radur, Marian Ifans. Ganddi hi cawsom beth o hanes ei ddyddiau cynnar a chip ar berfformiadau Cwmni'r Gadwyn a'r ymarferion yng ngardd Cath ac Emyr. Clywsom am ei ddawn fel pysgotwr a'i chwaeth mewn dillad a cherddoriaeth. Cyfansoddodd, cyfieithodd a chyhoeddodd nifer fawr o ddramâu ynghyd a dwy gyfrol o farddoniaeth. Bu'n brif arholwr Drama Safon Uwch i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru am 25 mlynedd a dyfynnodd Marian eiriau Rhiannon Rees fod ei gyfraniad "i addysgu Drama fel pwnc craidd yn ein hysgolion yn amhrisiadwy. Cyfoethogwyd sgiliau'r athrawon drwy ei arweinyddiaeth yn y maes. Aeth llawer o ddisgyblion a gafodd gyfle i astudio a pherfformio drama yn ein hysgolion, ymlaen i actio yn broffesiynol."

Yn ôl Marian, "Barry Boy" oedd Emyr, er iddo gael ei eni yn Aberystwyth a threulio peth o gyfnod yr ail ryfel byd yn ddisgybl yn Aberaeron. Dychwelodd i'r Barri yr adeg honno'n siarad dim ond Cymraeg, er mawr ddryswch i'w fam oedd yn ddi-Gymraeg. Pan gychwynnodd yn y Brifysgol, ei bwnc oedd Archeoleg!

Yn ystod ei yrfa bu Emyr yn ddarlledwr a chynhyrchydd rhaglenni i gwmni teledu TWW (rhagflaenydd HTV) ac yna'n bennaeth yr Adran Ddrama yng Ngholeg Hyfforddi Morgannwg yn Y Barri. Yn ddiweddarach bu'n darlithio ym Mhrifysgol Morgannwg, Pontypridd ac ar y cwrs Theatr Cerdd a'r Cyfryngau yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. A theg nodi, ynghanol ei brysurdeb, iddo hefyd gynhyrchu un o ddramâu R G Berry, un o'n cyn-weinidogion, ar gyfer gŵyl yn festri Bethlehem!

Rydyn ni, fel eglwys, yn cydymdeimlo â Seth, Bridie, Aine ac Aran ac yn cofio atyn nhw. Mae'n chwith meddwl i ni ffarwelio â dau mor ddawnus â Cath ac Emyr, mewn ychydig dros hanner blwyddyn.

(IR)

Mae dwy o'r erthyglau sy'n dilyn yn rhai wedi eu hysgogi gan oedfaon Bethlehem dros yr Haf.
Dyma'r gyntaf - gyda gair o gyflwyniad gan Gwyn Roberts, Rhydlafar.

Cyd-ddigwyddiad!

Yn y Capel, fore Sul olaf Gorffennaf fe lediodd y Parch Lona Roberts ei hemyn gyntaf - "Esgyn gyda'r lluoedd …" ac fel un sy'n cyfrannu at y canu trwy fod yn dawel, fe sylwais ar enw'r awdur - Watcyn Wyn! Nawr, wyddwn i ddim yw dim am yr awdur, Watkin Hezekiah Williams, ond dyma'r ail dro iddo ddod i'm sylw o fewn wythnos. Roeddwn newydd derbyn erthygl i'w chyhoeddi yng Nghylchlythyr Cymdeithas Edward Llwyd, a honno yn dweud y cefndir trist a symbylodd emyn arall o'i eiddo, "O'r niwl i'r Nef"

Crybwyllais y cyd-ddigwyddiad wrth Lona Roberts, sy'n gyd-aelod o'r Clwb Darllen Cymraeg yn y Llyfrgell Ganolog, ac fe ddywedodd hithau y buasai'n hoffi gweld yr erthygl. Felly, dyma'r hanes, gyda diolch i'r awdur, Arwel Michael am ei rhannu, ac i Eirian Davies ac Arwel am y lluniau. ***Gwyn Roberts***

Trychineb Llungwyn 1904 ar y Mynydd Du. Arwel Michael

Bore Llungwyn 23ain o fis Mai 1904 ydoedd pan fentrodd tri llanc ifanc o Blwyf Ystradgynlais, pen uchaf Cwm Tawe, i gerdded i bysgota ar Llyn-y-Fan Fach. Cymry Cymraeg oedd y tri, Lewis Davies, Ynys Uchaf, Ystradgynlais yn 17 oed; David John Morgan y Bwllfa, Caerlan yn 16 oed, a David James Gibbs o Abergïedd, Cwmgïedd yn 16 oed.

Saith milltir, ar ehediad brân, yw Llyn-y-Fan Fach o Gwmgïedd, ac ar fore'r Llungwyn gadawodd David James Gibbs ei gartref yn Abergïedd am chwech o'r gloch gan gerdded gyda'r gamlas nes cyfarfod â Lewis Davies ger Ynys Uchaf. Ymlaen wedyn nes cyfarfod gyda David John Morgan ger Gwesty'r Castell yng Nghaerlan ac ymlaen am fynydd y Garth a Chribarth.

Llyn y Fan Fach

Wedi croesi'r mynydd fe aethant lawr hyd at Nant Ceiliog a'i chroesi cyn mynd ymhellach mewn i'r mynydd. Digon llwydaidd oedd y tywydd yn ystod y bore, ac fe gwympodd glaw mân hwnt ag yma ar eu ffordd hyd at ben Fan Brycheiniog. Fe eisteddwyd yno am y tro cyntaf ers y bore, er fod eu bwyd wedi gwlychu gyda'r glaw mân. Ar ôl cerdded agos i dwy filltir ymhellach, fe ddaethant at Nant Sawdde y gwyddent oedd yn llifo allan o Llyn-y-Fan Fach.

Yno o'u blaenau roedd dau ddyn o Gwmgïedd yr oeddynt yn eu hadnabod, Phillip Hopton, a Lewis Michael. (Tad-cu Arwel Michael, "Y King Fisher" - oherwydd ei ddawn pysgota!)

Cynghorwyd y bechgyn fod y tywydd am waethygu ac iddynt ddechrau am adref ac anghofio am bysgota. Ond pysgota ymlaen wnaethant, ac erbyn tri o'r gloch y prynhawn, pan eisteddodd y bechgyn i orffwys a thamaid i fwyta, fe sylweddolwyd nad oedd dynion Cwmgïedd i'w gweld ac fe ddechreuasant deimlo'n anesmwyth.

Dyna ddiwedd ar y pysgota ac fe ddechreuant ar eu ffordd adref, ffordd serth a hir hyd at Bwa'r Llyn, a saith milltir caled oddi yno tros y Mynydd Du am adref. Wedi cyrraedd Bwa'r Llyn, gwelwyd fod y niwl yn cau o'u hamgylch, ac roeddynt yn meddwl eu bod yn agos i darddiadau tair afon y Twrch, Gwys, a'r Gïedd, cwteri bychain ar lethrau uchel y Bannau. Roeddent wedi gwlychu at y croen a'r niwl yn gwaethygu ac yn cau o'i amgylch. Ymlaen a hwy, yn ddi-gyfeiriad, ar goll mewn cell o niwl, oer, digyfaddawd y Mynydd Du.

Fe ddaethant at nant oedd yn llifo'n gyflym, fe neidiodd David James Gibbs trosti, gan gerdded ymlaen yn meddwl fod ei gyfeillion yn dilyn. Cafodd fraw pan edrychodd tu ôl a sylwi nad oedd ei gyfeillion i'w gweld yn unman. Gwaeddodd a chwibanodd yn ofer, ac fe benderfynodd gerdded ymlaen gan obeithio ei fod yn anelu am Gwmtwrch. Ni fedrwn ond ddychmygu beth oedd yn mynd trwy feddwl crwt un ar bymtheg oed ym moelydd creulon, anghysbell y Mynydd Du.

Wedi gwlychu at ei groen, a gyda milltiroedd ar ôl eto cyn cyrraedd ei gartref yn Abergïedd, gofynnodd iddo'i hun os oedd wedi cerdded mewn cylch diarwybod? Ym mha le oedd y llwybr fe ddaethant arno yn y bore? Roedd yn sicr ei fod wedi croesi ef yn ddiarwybod yn y niwl. Yn sydyn dyma afon o'i flaen, fe ddilynodd ef am agos i ganllath yn erbyn y llif y dŵr, cyn sylweddoli ei fod yn gwneud y peth anghywir, ac fe drodd yn ôl gyda'r llif. Fe gadwodd gyda'r afon wedyn rhag ofn iddo golli ei ffordd unwaith yn rhagor, gan obeithio mai am Gwmtwrch yr oedd yn anelu.

Llifodd yr afon yn serth dros Sgydau (Rhaeadrau) hwnt ag yma, ac araf oedd siwrnai David lawr trwy'r geunant wyllt. Wrth agosáu at wely'r cwm fe welodd fod y niwl yn teneuo ac fe welodd nad Cwmtwrch oedd wedi gyrraedd, ond Glyntawe, ardal lle bu'n hel cnau yn y gorffennol. Bron llefain mewn gollyngdod, sylweddolodd mai Afon Haffes a'i achubodd o'r mynydd. Fe gerddodd yn agos i bum milltir ers colli ei gyfeillion. ***(Parhad ar y dudalen nesaf)***

Adroddodd ei brofiad erchyll i'r ffermwr a'i wraig yn Carreg Haffes a buont yn garedig iawn wrtho. Gofynnwyd iddo aros yno tros nos yn y fferm, ond roedd eisiau mynd adref arno, rhag ofn bod ei gyfeillion wedi cyrraedd adref a'i rieni gofidio amdano.

Erbyn iddo adael Carreg Haffes roedd yn chwech o'r gloch gyda bron i saith milltir eto cyn cyrraedd adref. Nid oedd gwasanaethau bysiau yr adeg hynny wrth gwrs, na chyfle i ffonio. Cerddodd heibio Castell Craig-y-nos, ac erbyn iddo gyrraedd y gamlas ger Gwesty'r Castell Caerlan, ni ddaeth yw feddwl, oherwydd blinder, i alw heibio cartref Lewis Davies yn yr Ynys Uchaf.

Fe gyrhaeddodd David James Gibbs adref yn Abergïedd erbyn hanner awr wedi deg, ac roedd ei rhieni wedi gofidio yn enfawr, ac roedd ei dad ar fynd allan i chwilio amdano. Cafodd y bachgen bryd o dafod gan ei rieni, ond fe newidiwyd eu hagwedd tuag ato pan sylwyd ar y cyflwr truenus yr oedd y bachgen ynddo. Gwnaeth ei fam swper iddo, ond methodd a'i fwyta. Fe ymolchodd ac aeth i'r gwely am noswaith anesmwyth ddi-gwsg.

Yn agos i bedwar o'r gloch y bore dyma dwrw curo ar ddrws Abergïedd. Tad Lewis Davies, a thad David John Morgan oedd yno, yn gofyn os oedd David Gibbs wedi cyrraedd adref? Nid oedd sôn am eu bechgyn hwy, a 'doedd gan David Gibbs ddim syniad ble oedden nhw wedi eu gwahanu, na beth oedd wedi digwydd i'w gyfeillion.

Ar fore Mawrth y 24ain o Fai, pan ddeallwyd fod David John Morgan, a Lewis Davies heb gyrraedd adref o'r Mynydd Du, fe gaewyd gweithfeydd glo Abercraf ac Ystradgynlais i'r glowyr gael chwilio am y bechgyn. Bernir fod dros fil ag hanner yn chwilio'r mynydd mewn tywydd garw. Dywedodd un glöwr eu bod llaw yn law, bron filltir o led yn chwilio am y bechgyn mewn niwl ofnadwy.

Yn hwyrach yn ystod y dydd Mawrth, fe gyrhaeddodd Lewis Davies yntau, allan o'r mynydd ar ffin ogleddol fferm y Ddorwen, sydd ar lethr gorllewinol Llwyncwnstabl, hynny oedd uwch Afon Twrch. Fe gwympodd wrth ochr y ffermdy gan fethu mynd ymhellach. Pan daeth Griffith Rees, y ffermwr, ar draws y bachgen anymwybodol, cludwyd ef i'r tŷ a'i ddodi yn y gwely.

Pan oedd yr achubwyr yn agos i amaethdy'r Ddorwen, galwyd hwy mewn, ac yno, er llawenydd iddynt, dyna lle'r oedd un o'r bechgyn, sef Lewis Davies. Dyna'r tro cyntaf i Griffith Rees darganfod pwy oedd y bachgen yn eu gwely. Digon tebyg, oni bai am dynerwch. a gofal caredig ac amserol Griffith Rees a'i wraig, buasai Lewis Davies wedi gorffen ei yrfa yno.

Bwlch Twrch, lle cafwyd y corff

Yn y cyfamser darganfyddiad trist wnaeth carfan arall o achubwyr, sef Lewis Jones o fferm Caemawr Cwmgïedd; William Griffiths a'i frawd Tomos o fferm Penparc Cwmgïedd, a Thomas Williams o fferm Fforchorllwyn Cwmgïedd. Roeddynt yn nesáu at darddiad Afon Twrch, ar lethr Fan Brycheiniog. Fe ddaethant yno o hyd i gorff David John Morgan yn gorwedd ar wastad ei gefn gyda'i ddwy lygad yn agored. Yn ei logell roedd dau swllt wyth ceiniog a dimai a phamffledyn bychan "Hanes Iesu" Yn ei ymyl roedd basged fechan gyda brithyll ynddi.

Cyn hir aeth y newyddion trist ar led drwy'r ardal, ac fe welwyd tyrfaoedd yn ymgasglu ar lethr y Fan. Ar ôl codi math o elor wely, gwelwyd yr orymdaith yn cychwyn i'w gartref yn agos i chwe milltir i ffwrdd. Wedi cyrraedd at lan Afon Gïedd, fe ddewiswyd cant o ddynion i gludo corff y bachgen adref i'r Bwllfa Caerlan.

David John Morgan oedd y ieuangaf o'r bechgyn ac fe'i claddwyd yn Mynwent Capel yr Annibynwyr Tŷ'n y Coed Penycae, Cwmtawe, ar ddydd Sadwrn 28ain Mai 1904

Ysgrifennodd Watcyn Wyn y darn o farddoniaeth isod **"O'r Niwl i'r Nef"** oherwydd y trychineb. Fe ddodwyd Cerddoriaeth iddo gan Mr D.E.Williams o Dreforys, Cwm Tawe.

Rwy'n mynd, fy nhad a mam,
I wlad na ddof yn ôl;
'Rôl teithio llawer cam
Dros lawer bryn a dôl.
Rwyf wedi blino'n lân,
Fy nerth sydd yn gwanhau,
Mae afon o fy mlaen,
A niwl o'm cylch yn cau.
Tu hwnt i'r Mynydd Du,
Rwy'n gweld rhyw hyfryd wlad,
A thuag ati hi
Rwy'n mynd, fy mam a nhad.

Rwyf wedi colli'm ffordd.
Fy ffrindiau sydd ar goll,
A minnau yn y nos
Yn chwilio am danynt oll.
Ond nid oes un a ddaw
I'm cwrdd yr ochr hyn,
Ond mae yr ochr draw
Yn llawn o engyl gwyn.
Ac fel yn dweud i gyd,
Na chaf fi unrhyw gam,
Rwy'n mynd i'r bythol fyd,
Ffarwel, fy nhad a mam.

Mae afon o fy mlaen,
Rwy'n clywed sŵn y don;
Rwy'n gweld y rhai sy'n byw
Tu hwnt i'r Ffrydiau hon.
Mae melys un yn dod,
'Rôl dydd o ludded maith.
A minnau'n teimlo fod
Gorffwysfa ar ben y daith.
I groesi'r ochr draw,
Nid oes ond megis cam,
Rwy'n mynd i'r byd a ddaw,
Ffarwel, ffarwel fy mam.

Watcyn Wyn.

Bethlehem a'r Eisteddfod

Rhodri-Gwynn Jones

Dyma'r ail erthygl sydd wedi codi'r tro hwn o oedfa yng Ngwaelod-y-garth: Wedi ei seilio ar y Cyflwyniad i Oedfa Bore Sul 8fed o Awst 2021.

Ar Sul yr 8fed o Awst eleni, a hithau yn ddiwedd wythnos Eisteddfod Amgen, a diwedd beth fyddai wedi bod yn ail-gynnig ar gynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion yn Nhregaron, trefnwyd oedfa yn y capel oedd yn seiliedig ar y cyswllt rhwng Bethlehem, Gwaelod-y-garth ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

A thra y gallai'r cyfan fod wedi swnio'n debyg i restr mewn catalog, nid dyna'r bwriad, na hyfdra chwaith yn canu clodydd yr aelodaeth, sydd wedi yn y gorffennol, ac yn dal i wneud hyd y dydd heddiw, rhannu o'u doniau amryddawn â Chymru gyfan.

Yn syml ddigon, ffordd o ddweud diolch wrthynt oedd hyn - am eu parodrwydd yn gadael i ni rannu yn eu llwyddiant, ac am feithrin arferion da yn ein mysg. Ac o edrych yn fanwl, yn ddi-os mae 'na gysylltiadau clos a diymwad rhwng yr Eisteddfod a'r capel, ac yn ein tro 'rydym ni yn ddiolchgar ac mewn dyled i'r Eisteddfod mewn llawer ffordd.

Mae yna nifer lawer, yn ogystal a bod yn fynychwyr Eisteddfodol, hefyd wedi bod yn cystadlu yn yr Eisteddfod mewn gwahanol feysydd ers blynyddoedd maith, yn feirdd a llenorion, yn gantorion, yn actorion ac ym maes celf, llun a lliw. Mae nifer fawr wedi bod a chyswllt fel gwirfoddolwyr ac ar bwyllgorau cenedlaethol a lleol.

Mae rhai wedi bod yn "Llywyddion Anrhydeddus", eraill yn Gadeiryddion Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod. Gall Bethlehem gydnabod i hynny ddigwydd dair gwaith ers 1950 ym mhersonau y diweddar T W Thomas (Caerffili 1950 a Chaerdydd 1960) a Huw Llywelyn Davies (Caerdydd a'r Cylch 2008).

'Roedd T W Thomas hefyd yn un o bump Cymrawd Cyngor yr Eisteddfod tan ei farwolaeth yn 1999. Mae un o'r pump Cymrawd presennol, y Parchedig Ddr. R Alun Evans, yn ŵr sydd wedi rhoi oes o wasanaeth i'r Eisteddfod mewn gwahanol feysydd, gan gynnwys bod yn Llywydd y Llys (2002 – 2005), a gwyddom am ei ddawn fel Arweinydd y Dydd ar y llwyfan dros gyfnod maith o flynyddoedd, ac mae'n dal i lywyddu rhai o'r seremonïau o hyd.

Mae nifer sy'n aelodau o Orsedd Cymru, ac mae rhai o'r ieuenctid a'r plant wedi bod yn Facwyaid yn seremonïau'r Orsedd, ac hefyd yn gweini ar yr Archdderwydd.

Hyd y gwn, 'does na ddim Archdderwydd yn ein plith, er y cofiwn i Cerith Davies chwarae rhan yr Archdderwydd yma ym Methlehem yn 2017, mewn cyflwyniad o "Nadolig Eisteddfodol" (gan Heulwen Jones) [math o gameo yn arwain tuag at Eisteddfod Caerdydd yn 2018].

Er petawn, trwy gyswllt, yn ymestyn y rhwyd, gellid crybwyll bod y diweddar Llinos Davies, a gyflwynodd y lliain sydd o dan y fas flodau yn y Set Fawr, yn berthynas i J J Williams (a enillodd y Gadair am ei awdl enwog i'r "Lloer" yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1906). Bu ef yn Archdderwydd (enw barddol - "JJ") rhwng 1936 a 1939. Ac fel yr atgoffodd Ifan Roberts ni mewn rhifyn diweddar o "Gair Bach Bethlehem", yma ym Methlehem y bu i Cynan, yr unig un i fod yn swyddogaeth yr Archdderwydd ddwy waith, ddewis priodi am yr eildro yr 11eg o Ebrill 1963!

(Fe enillodd W J Gruffydd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain 1909 [Pryddest ar y teitl "Yr Arglwydd Rhys"], wn i ddim a oedd yn aelod yma ar y pryd – fe allai, gan iddo gael ei benodi yn ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd yn 1906.)

Beth am gael cilwg yn ôl i niwl eisteddfodau'r gorffennol i weld beth mwy fedrwn ei ddarganfod!

Mae'n siŵr nad oes angen eich atgoffa fod 'na Goron Eisteddfodol wedi cyrraedd y Gwaelod mor ddiweddar a 2018, gyda Catrin Dafydd yn cipio un o'r prif wobrau yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018, a hynny am ei chasgliad o gerddi ar thema "Olion".

Enillodd Aled Islwyn wobr "nofel Daniel Owen" ddwy waith, yn 1980 (Dyffryn Lliw) am "Sarah Arall", ac yna yn 1985 (Rhyl a'r Cyffiniau) am "Cadw'r Chwedlau'n Fyw".

Enillodd tad Gwenan Richards, O.E Roberts, y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yn 1952 am ei gyfrol "Cyfrinachau Natur", ac wedyn yn 1954 (Ystradgynlais) am gasgliad o ysgrifau dan y teitl "Y Gwr o Ystradgynlais"'. Ac wrth gwrs, a ninnau wedi ffarwelio'n ddiweddar ag Emyr Edwards, fe gyfeiriwn at orchest ei dad, J M Edwards, yn ennill y goron dair gwaith yn Eisteddfodau Cenedlaethol Machynlleth 1937 ("Y Pentref"), Hen Golwyn 1941 ("Peiriannau") a Llandybie 1944 ("Yr Aradr"). Da cofio hefyd i Emyr ei hun ennill am gyfansoddi dramâu.

Ac fe ŵyr pobl Bethlehem hefyd fod y cyfenw Tilsley yn gyfarwydd i ni o hyd, a chofiwn, gyda Garmon ac Anna a'r teulu, am orchestion eu hen-daid, Y Parchedig Gwilym R Tilsley, yn ennill cadair Eisteddfod Genedlaethol Caerffili yn 1950 (gyda'i "Awdl Foliant i'r Glöwr") a'r un llwyddiant

(Parhad ar y dudalen nesaf)

wedyn yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn yn 1957 (“Cwm Carnedd”). Bu “Tilsli” hefyd yn Archdderwydd rhwng 1969 a 1972.
Petawn yn troi’n gyflym at y gwobrau eraill a gynigir gan yr Eisteddfod, byddai cynrychiolaeth gref o’r fan yma mewn llawer ohonynt:-
Tlws y Cerddor: Eilir Owen Griffiths (2008) a Ieuan Wyn (2013).
Gwobr Richard Burton: Bethan Ellis Owen (1994)
Gwobr Goffa Llwyd o’r Bryn: Elen Rhys (1993); Hannah Roberts (1984) a Brian Owen (1965) [brawd Elin Tudur, sef gwraig ein diweddar weinidog y Parchedig Rhys Tudur).
[Fe gasglwyd hanes yr enillwyr gan y Parchedig Ddr. R Alun Evans, a chyhoeddwyd llyfr “Y Llwyd o’r Bryn” yn 2008. ‘Roedd eisoes wedi cyhoeddi hanes “Y Rhuban Glas – Gwobr Goffa David Ellis 1943 – 2000” yn 2000.]
Gwobr Goffa Syr T H Parry-Williams: Mair Penri Jones (2008) [mam Llion Llafar]
Ac yna, ar cyfan wedi ei ddal ar ffilm newydd ar Sianel YouTube Eisteddfod Amgen, yng nghyswllt y gwrthrych arbennig yma, y Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg gyntaf yn cael ei chyflwyno i’r Athro Glyn O Phillips yn Eisteddfod Casnewydd a’r Cylch yn 2004 (a hynny gan y Parchedig Ddr. R Alun Evans). Fe gofiwn hefyd i Mel Williams [taid Mabon a Trystan] dderbyn y fedal honno yn 2015.
A dyna ni, digon yw digon - os na wyddoch chi’n wahanol!?
Neu a’i gwell fydd disgwyl tan i Dregaron ein croesawu rhwng y 30ain o Orffennaf a’r 6ed o Awst 2022!

ODLAU'R GARTH

Soned o waith Martin Huws, Ffynnon Taf, y tro hwn:

Callio?

Mae hyn yn hala Mam i anobeithio.
Ei masg yn llithro, craciau yn ei swyn.
Yr un hen gân: ‘Ma’n hen bryd iti siapo.’
Ei sŵn hi’n llai wa’th miwsig hy Rhys Mwyn.

Y gynta, Sioned, a’i syniadau rhyfedd.
Pob lwc i’r dyn fydd yn ei rhwydo hi.
Dyfynnai’r Beibil, collais i amynedd,
fe ges i droedigaeth, gollwng hi.

Yr ail un, Ann, fe lyncai hi alwyni.
Ar ddiwedd noson ewn hon ddim yn gall:
‘rôl yfed rỳm a Côc, sawl fodca, brandi,
ar bigau’r drain, yn ysu am un arall.

Nid cachgi wyf yn ofan cyfrifoldeb.
Does neb yn bur fel arwr mewn hysbyseb.

Martin Huws

WUHAN

Rhiain Phillips



Rwyf yn ei chael yn anodd i dderbyn yr atgasedd sydd wedi bod yn codi efo'r gair 'Wuhan'. I mi daw lluniau o bobl croesawus, brwdfrydig. Roedd Glyn wedi cael cais, drwy ei gysylltiad yn Siapan, am le i un yn ei griw ymchwil. Fe ddaeth bachgen o Tsieina oedd wedi astudio a disgleirio yn Siapan i ymuno a'r garfan. Y myfyriwr clyfraf a gafodd erioed, meddai Glyn. Daeth a'i wraig hefo fo i Wrecsam ac yno y ganwyd eu plentyn cyntaf.

Gallai hynny fod o help pan aent yn ôl i Tsieina. 'Cymro' fyddai hwn felly'n caniatáu lle i un arall yn y teulu yn unol a deddf Tsieina bryd hynny sef mai dim ond un plentyn oedd i fod i bob teulu.

Toc daeth gwahoddiad iddo fynd i brifysgol yn Wuhan gan ofyn hefyd am help llaw Glyn i sefydlu adran ymchwil yno. "Wrth gwrs!!!" ac i ffwrdd a ni! Bu wythnos o drin a thrafod efo cynrychiolydd Llywodraeth yn ogystal a staff y coleg ond daethpwyd i ddealltwriaeth. Mae labordy yn y brifysgol a plac wrth y drws yn Gymraeg a Tsieinëeg yn nodi'r cysylltiad. *(uchod a dde)*

Mewn difri mae Wuhan yn dair dinas gyda'r traffig yn hunllefus. Croesi'r ffordd a'ch bywyd yn eich llaw! Un bore, o'n bwrdd brecwast o lawr ucha'r gwesty, gallwn weld cylchfan pum ffordd yn cyfarfod a phedair bws ar ddeg yn gweithio eu ffyrdd o'i chwmpas. Does rhyfedd, mae'n debyg, ymhen rhyw bedair blynedd wedyn, i'r cwbl gael ei chwalu i greu lle i 'fetro' danddaearol!

Roedd ein cyfeillion newydd yn awyddus i fynd a ni 'allan' i weld unrhyw harddwch. Gan gynnwys un llun mawr tu allan lle'r arferai Mao Tse-tung ddod i dreulio gwyliau ar ei lan.

Ar ôl dod adre un tro clywsom, drwy gysylltiad o Abertawe, am Y Parchedig Ddoctor Griffith John, (1831-1912) cenhadwr o Gymro fu'n gweithio yn Wuhan ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Aeth yno ar gyfnod hynod o dymhestlog yn Wuhan.(Treuliodd Griffith ei yrfa gynnar, ac ynte'n 12 oed, yn löwr ym mhwll Onllwyn.) Wrth ymweld wedyn aethom i ymchwilio a chael iddo sefydlu ysbytai, ysgolion a cholegau a thrwy hyn oll cyfieithu'r Beibl i Mandarin. Mae ei enw'n dal yn gysylltiedig yn Wuhan gyda'r sôn amdano'n dysgu'r hogiau i chwarae peldroed ar gae a brynodd Dr John iddynt!

Rhoddwyd cerflun o'i ben y tu allan i Ysbyty Coffa'r ddinas ac mae'n gwmni anrhydeddus iawn i'r plac Cymreig wrth labordy Prifysgol Hubei!

MAS O'R DRÂR O'R DIWEDD! Hannah Roberts

Yn ystod "Y Clo", geson ni ddicon o amser i itrech ar natur. Hales i dipyn o amser yn gwylio'r Pili Pala—"y bow tei ar wddf yr awel", sy'n mynd trwy tri newidiad yn ystod ei fywyd byr. Wel, ryw naw mlynedd yn ôl, fe geso i ryw "fetamorffosis" - mynd i'r gwely un nosweth yn berson weddol normal, a dihuno lan yr ail fore fel bardd!!!!!—a na, 'dy ni ddim cweit yn bobol normal.

Os welwch chi rhywun m'wn caffi ne' dafarn yn ishte fanna yn cownto ar ei fysedd,---bardd sy' 'na garantîd!! Cownto sillafe mae e, saith ar gyfer englyn, yr un peth i gywydd, a lan i ddeg i hir a thoddaid . Na pham geso ni ddeg bys siŵr o fod, falle o'dd duw yn cynghaneddu! Diolch bod dim mesur sy' ishe mwy na deg sill!!!!

Fe ddechries i farddoni drwy gystadlu yn yr eisteddfote diri ma sy'n ffenomenon flynyddol yn ein gwlad fach ni. Erbyn hyn ma 'da fi un-ar-ucen o gadeire (bach) am gerddi wedi'u hennill rhwng 2011 a 2019, a saith o'r rheiny yn 2015, nes bod y cylchgrawn "Steddfota"n rhoi'r pennawd ,"O Gadair I Gadair"!!!!!!! Ma' un ne' ddou steddfod yn roi cater FAWR, dw i ddim 'di llwyddo ca'l un o'r rheiny eto, ond dw i wedi meddwl whilo saer i fwro rhain i gyd miwn i un i fi ga'l y nymuniad!!!!!

Wel, yn ystod Y Clo, dyma benderfynu yn gynta' troi 'r cerddi miwn i lyfr, yn lle eu bod nhw'n ishte yn y drar, ac yn ail, bod yr elw yn mynd at Cymorth Crostnogol gan fod y mudiad yn dathlu 75 mlynedd o fodolaeth eleni. Dyma un o fendithion y cyfnod rhyfedd yma, ei fod wedi esgor ar gymaint o waith creadigol ar hyd a lled y byd.

Creu'r llyfr 'ma yw'r peth agosa' alla i feddwl at eni plentyn!! Cymerodd naw mis i'w glasgu at ei giddil, yna, ma' ffrwyth, wel yn rhannol, naw mlynedd o waith yndo fe.

Yn ystod Steddfod yr Urdd eleni, fe wetws y Prif Lenor ei bod hi'n hyfforddi i fod yn fydwraig, a hynny'n dod a'r ddou beth yn deidi at ei gilydd, ma' hi'n gweld mamau'n esgor ar fabis, a hithe'n esgor ar lenyddiaeth.

Enw'r fy nghyfrol i yw "Cerddi'r Cadeire Bach", sef yr adran gynta. Ffrwyth cystadleuthe Cymdeithas Eisteddfode Cymru yw y rheiny. Nawr ma' pryddeste cadeiriol diri y Genedlaethol wedi ymddangos mewn llyfre, ife dyma'r tro cynta i gerddi cadeiriol yr eisteddfote bach ga'l eu casglu mewn llyfr 'sgwn i? Ma' 'na chwech adran arall, a llawer o'r rhain wedi bod yn fuddugol hefyd:-Telynegion, Sonedau, Englynion, I Ffrindie, Cerddi'r Clo ac adran Y Nadolig. Daw o wasg Carreg Gwalch yn yr Hydref. Bydd ar ga'l yn ambell siop Gymra'g sy'n ddicon caretig i'w arddangos i fi. Os am archebu pan ddaw e, yr e Bost yw:- tanymarian2@btinternet.com - Presant 'Dolig ?!!!!

OEDFAON
hyd ddiwedd
Mis Hydref

Medi 19 - Rhys Powys
Medi 26 - Emlyn Davies
(rhithiol os na fydd Tabernacl wedi ail-ddechrau)

Hydref 3 - Diolchgarwch
(Heulwen Jones)
Hydref 10 - Gethin Rhys
Hydref 17 - R. Alun Evans
Hydref 24 - Aled Edwards
Hydref 31 - Sul Adferiad
(Wynford Ellis Owen)

Rhodri-Gwynn Jones

Cyfeiriadau at Gapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Bydd y rheini ohonoch sy'n byw yn nalgylch Cyngor Cymuned Pentyrch eisoes wedi darllen y rhifyn cyfredol o "Cwlwm Bro", ac felly yn gyfarwydd a'r straeon sy'n dilyn. Ymddiheuriadau rhag blaen felly am yr ail-bobiad! A rhag i'r gweddill ohonoch chwi feddwl mai dim ond materion yn ymwneud a gweithgarwch y Cyngor Cymuned sydd ynddo, a thrafodaeth a chwynion am bethau megis sbwriel, gor-yrru a goleuadau stryd, wel fe gewch siom o'r ochr orau.

Mae yr ysgolion, y cymdeithasau a'r clybiau chwaraeon i gyd yn cyfrannu lluniau a hanesion, nifer yn Gymraeg a Saesneg, ac yn gwneud cylchgrawn hynod ddiddorol a chynhwysfawr, gyda'r rhifyn presennol yn llawn hyd ymylon yr 28ain tudalen. Ond pam rhygnu 'mlaen amdano – tydio ddim yn rhywbeth newydd – wedi'r cwbl, hwn oedd rhifyn 113!

Wel, o edrych ar ei gynnwys, fe'm trawodd bod yna nifer o'r erthyglau yn cyffwrdd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd a Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Rhai o'r cysylltiadau yn lled gyfarwydd, a'r gweddill yn rhai hollol newydd. Rhai yn codi mwy o gwestiynau yn ogystal.

Beth am y canlynol ar dudalen 25? Yno fe welir llun o ŵr o'r enw Gabriel Beristain yn sefyll ger y fynedfa i'r capel, gyda'r drws yn gil-agored. 'Roedd wedi ei dynnu ychydig flynyddoedd yn ôl, ond tybed ar pa orchwyl yr oedd yno? Oes 'na rhywun a mwy o wybodaeth am ei ymweliad â'r Gwaelod, a phwy agorodd ddrws y capel ar ei gyfer?

A rhag ofn na wyddoch pwy ydi'r gwrthrych, yna o holi Wicipedia, deuthum i ddeall fel a ganlyn:-

"Gwr o Ddinas Mecsico ydi Luis Gabriel Beristain, sydd bellach yn byw yn Hollywood, cynhyrchydd a chyfarwyddwr, ac yn anad dim ffilmiwr (*cinematographer*) byd enwog." Ac yn sgil y cymal olaf, mae ei waith ffilmio diweddaraf, "Black Widow", sydd wedi bod yn cael ei dangos yn y sinemâu lleol yn ystod mis Awst eleni, gyda Scarlett Johansson yn serennu, yn seiliedig ar gymeriadau archarwyr (*superhero*) y comic Americanaidd "Marvel".

Yna ar dudalen 21 ceir erthygl fer gan gynrychiolydd y Gymdeithas Hanes leol dan y teitl ***"Tŷ Newydd and the Welsh Poet"***. Cyswllt y bardd Eingl-Gymreig, Vernon Phillips Watkins (1906 – 1967), a'r pentref sydd dan sylw, ac er mai ym Maesteg y'i ganwyd, ef oedd ail blentyn William Watkins, goruchwyliwr banc, brodor o Ffynnon Taf, a'i wraig Sarah (ganwyd Phillips) o'r Sarnau, Sir Gaerfyrddin (y ddau ohonynt yn Gymry Cymraeg, er na ddysgasant Gymraeg i'w mab). Yn ôl y Bywgraffiadur Cymreig (ar lein):-



"Tyfodd Vernon Watkins i fod yn un, ac efallai yr enwocaf, o ychydig feirdd metaffisegol yr ugeinfed ganrif. Yn ystod ei fywyd bu dan gysgod ei gyfaill gwibiog ddisglair, Dylan Thomas… Ond hyd yn oed wedi i Dylan fethu dod i'w briodas yn Llundain yn 1944 … ac yntau i fod yn was priodas iddo, ni fynnai Vernon roi terfyn ar y cyfeillgarwch. Bu farw 8 Hydref 1967, wrth chware tennis yn fuan wedi cyrraedd Seattle yn T.U.A., am ei ail dymor fel Athro ymweliadol mewn barddoniaeth ym Mhrifysgol Washington."

Ond yn ôl at yr erthygl yn Cwlwm Bro – sonnir yno fel a ganlyn:-

"'Roedd Vernon Watkins yn perthyn i Abraham Phillips, Glofa'r Lan, trwy briodas ei frawd. Ffermwr, Tomos o'r Lan, oedd ei hen-daid, ac yn 1871, bu i'w fab yntau, Evan, gymeryd gofal o Tŷ Newydd, un o'r tai hynaf yn y pentref. Yma wedyn y bu cartref teuluol y "Watkins" am genedlaethau.

Ganwyd 11 o blant (5 merch a 6 o fechgyn) i Evan a'i wraig. Yn dilyn marwolaeth ei wraig, fe ail-briododd Evan, ond 'roedd problemau alcohol yn drech na hi, ac fe dynghedodd Evan ei fywyd i wasanaethu'r gymuned. Fe'i codwyd yn ddiacon ym Methlehem, Gwaelod-y-garth. William Watkin oedd enw wythfed plentyn Evan, ac er mai ond 10 oed oedd pan fu farw ei fam, gorfu iddo gynorthwyo i ofalu am weddill ei deulu. Vernon Watkins oedd wythfed plentyn William."

Gŵyr yr rhai ohonom am y cyswllt clos rhwng Tŷ Newydd a Bethlehem yn ystod y degawdau diwethaf, a chrybwylla'r erthygl mai Ann Gray, un o'n cyn-aelodau, sydd wedi etifeddu hanes y teulu Watkins.

Ychwanegir bod ŵyr Vernon Watkins, Marley, yn beldroediwr proffesiynol (Inverness Caledonian Thistle, Barnsley, Norwich City a Bristol City ymysg ei glybiau blaenorol), gan sgorio dwy ***(Parhad ar y dudalen nesaf)*** gôl yn ei unig gem i Glwb Peldroed Caerdydd ar y 10fed o Awst eleni. Enillodd ei gap cyntaf dros Gymru mewn gem yn erbyn Panama ym mis Tachwedd 2017.

Ar dudalen 23, ceir erthygl am "Gwilt y Gwaelod", gan olrhain mymryn o hanes Elisabeth Ellen Williams, gwraig yr Athro Griffith John Williams. 'Roedden nhw'n byw ym Mryntaf, Gwaelod-y-garth, ac yn aelodau ym Methlehem. Merch o Flaenau Ffestiniog oedd Elisabeth, ond symudodd i'r Gwaelod wedi iddynt briodi yn 1933 - cyfnod y dirwasgiad mawr cyn yr Ail Ryfel Byd.

Penderfynodd geisio lleddfu mymryn ar bryder y trigolion yn y cyfnod yma trwy drefnu menter gydweithredol ymysg merched y pentref (ar lun yr arbrawf cymdeithasol a gychwynnwyd gyda dodrefn Brynmawr gan y Crynwyr*).

[* Gweler "Celfi Brynmawr" gan Mary, Eurwyn a Dafydd Wiliam yn y gyfres Llyfrau Llafar Gwlad (Rhif 78)]

Trefnodd Elisabeth i'r merched gael hyfforddiant mewn "cwiltio", a sefydlodd weithdy ar eu cyfer yn un o stafelloedd gwely Bryntaf. Bu gwerthu ar y cynnyrch yn siop Liberty yn Llundain. Mae enghraifft o'r cwiltio yng nghasgliad Sain Ffagan.

Mewn ddarlith gan Emrys Roberts (Merthyr Tudful), ychydig flynyddoedd yn ôl ym Methlehem, fe soniodd am y fenter hon, ynghyd a'i chyfraniad ym myd addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (sefydlu Ysgol Bryn Taf yng Nghaerdydd), a nifer o gymwynasau eraill a ddeilliodd o'i hangerdd a'i hegni dros Gymru. Yn ôl a welaf tawel yw'r Bywgraffiadur Cymreig (ar-lein) am ei hanes, er bod gofod amlwg i'w gwr ynddo!

Ac yn olaf, erthygl ar dudalen 27 am y bwlch post coch o oes Fictoria sydd yn y mur gerllaw'r capel, a hwyrach y cofiwch y bu sôn yn "Gair Bach Bethlehem" Rhifyn 22 (15fed o Dachwedd 2020) am yr union un!

A dyna ni, rhown daw ar fyd y "Cwlwm Bro" am y tro.

Tybed a fydd y rhifyn nesaf o'r un diddordeb a pherthnasedd i aelodau Bethlehem?

Y Wennol yn ffarwelio

Fel arfer, wrth geisio cael llun o'r Garth yn newid ei liwiau, rhaid ceisio osgoi'r polion a'r gwifrau sydd o flaen ein tŷ ni.

Ond yn ail wythnos Medi, roedd rheswm da dros gynnwys y "weiren" yn y llun.

Er mai pum wennol sydd yn y llun, roedd eraill yn gwibio o'u cwmpas ond ofer fu pob ymdrech i geisio dal pawb ar y wifren i ail-greu'r darlun yng ngherdd T. Gwynn Jones:

"*Eisteddent yn rhes*
Ar wifren y telegraff;
Mae rhywbeth yn galw –
Crynant, edrychant yn graff."

Dim ond un nythaid o wenoliaid sy'n cartrefu gerllaw, ond yn amlwg roedd eu cyfeillion wedi dod ynghyd i baratoi am eu taith i wledydd twymach. Dyma'r adeg maen nhw ar gychwyn eu taith o tua 14,000 milltir i dde Ddwyrain Affrica. (Roedd hyn, gyda llaw, ar un o'r ddau ddiwrnod chwilboeth yna gawson ni cyn y niwl a'r glawogydd wedi hynny!)

(IR)

DYDDIAD CAU

AR GYFER

DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF

Hydref 13

Ysgrifennwch air neu ddau a'i anfon at Ifan Roberts:

tycnau@aol.com